

DOD YN LLYWODRAETHWR

Pam na wnewch chi ymuno gyda'r grŵp gwirfoddoli mwyaf yn y wlad, yn gweithio gydag eraill i gael y gorau i'n plant?

Mae llywodraethu yn ffordd ragorol o wirfoddoli a gall fod yn werth chweil iawn ac yn brofiad ysgogol.

Mae ysgolion angen cymysgedd dda o bobl o'u cymuned leol, o bob oedran a chefnidir, sydd yn gallu cyflwyno safbwyntiau, profiadau, sgiliau a syniadau newydd gwahanol.

Mae corff llywodraethu ardderchog yn hanfodol i lwyddiant ysgol – pam?

- mae llywodraethwyr yn gyfrifol am benodi'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth
- mae penderfyniadau llywodraethwyr yn effeithio'n uniongyrchol ar addysg a llesiant disgyblion
 - gall llywodraethwyr wneud gwahaniaeth gwirioneddol i wella safonau drwy'r ysgol gyfan

Mae gan bob corff llywodraethu grŵp craidd o lywodraethwyr sy'n cynnwys:

- rhiant-lywodraethwyr;
- athro-lywodraethwyr;
- staff-lywodraethwyr;
- llywodraethwyr Awdurdod Lleol;
- y pennaeth (oni bai y bydd ef neu hi yn ymddiswyddo o'r swydd).

Bydd cyrff llywodraethu hefyd yn cynnwys rhai o'r llywodraethwyr canlynol, gan ddibynnu ar y math o ysgol:

- llywodraethwyr cymunedol;
- llywodraethwyr cymunedol ychwanegol;
- llywodraethwyr cynrychioliadol;
- llywodraethwyr sefydledig;
- llywodraethwyr partneriaeth;
- noddwyr-lywodraethwyr;
- disgybl-lywodraethwr cyswllt (ysgolion uwchradd yn unig).

Beth yw llywodraethwr? Mae llywodraethwr yn rywun sydd:-

- yn cael eu penodi neu eu hethol am dymor o bedair blynedd;
- yn ymrwymo diddordeb, brwdfrydedd ac amser i fod yn llywodraethwr;

- yn gallu mynychu o leiaf un cyfarfod o'r corff llywodraethu yn ystod pob tymor ysgol ac efallai y gofynnir iddynt fynychu cyfarfodydd pwyllgor (mae'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd fel arfer yn digwydd yn hwyr yn y prynhawn neu yn ystod y nosweithiau);
- yn cyfarwyddo eu hunain â gwaith yr ysgol, gan gynnwys ymweld â'r ysgol, ac yn cadw'i fyny gyda chynnydd a gwaith yr ysgol;
- gweithio fel tîm, penderfynu ar bethau ar y cyd a rhannu cyfrifoldebau am y penderfyniadau a wnânt;
- canolbwyntio eu cyfraniad i lywodraethu penderfyniadau'r corff ar beth fydd er y budd gorau i ddisgyblion yr ysgol, gan helpu pob disgybl i ddatblygu eu potensial llawn;
- yn cefnogi'r ysgol ond hefyd yn herio ac yn gofyn cwestiynau am sut mae'r ysgol yn gweithio a'r safonau mae'n ei gyflawni, o gofio cyfrifoldeb y corff llywodraethu i hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol;
- yn barod i ddysgu ac i fynychu cyrsiau hyfforddi (gan gynnwys anwythiad a hyfforddiant data) a drefnir gan yr ALL, sy'n rhad ac am ddim, ac a fydd yn gwella sgiliau ac yn cyfrannu at ddatblygiad personol.

Beth rydym yn gobeithio y byddwch yn ei gael o fod yn llywodraethwr - beth yw'r manteision?

- chwarae rhan real iawn o ran sicrhau bod y disgyblion yn yr ysgol yn cael yr addysg orau bosibl;
- boddhad o godi safonau;
- sicrhau gwerth am arian ar gyfer yr ysgol;
- rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned;
- ymdeimlad o bwrpas a chyflawniad;
- hyfforddiant a chymorth er mwyn helpu i chi gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau;
- sgiliau newydd a allai fod yn ddefnyddiol mewn mannau eraill - gwaith tîm, cynllunio ariannol a strategol, recriwtio a sgiliau cyfweld - ac mai hynny dim ond i ddechrau!

Y cyrff llywodraethu yw cynllunwyr strategol ysgolion - er mwyn gwneud hyn mae corff llywodraethu yn:

- gweithio â phennaeth a staff ysgol i wneud yn siŵr bod ysgolion yn darparu addysgu a dysgu effeithio ar gyfer ein plant i codi safonau;
- gwneud penderfyniadau ar gyfeiriad cyffredinol yr ysgol, ei nodau a gwerthoedd, a gweithio gyda'r pennaeth i osod polisiau, targedau, cynlluniau datblygu a mwy;
- yn dylanwadu ar ac yn cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Ysgol;
- cymeradwyo a monitro dyraniad a gwariant cyllideb yr ysgol, ac yn penderfynu sut i wneud y defnydd gorau o hyn er budd addysg y disgybl;
- sicrhau y dysgir y cwricwlwm cenedlaethol a bod digon o staff i'w ddysgu;
- yn monitro ac yn adolygu cynnydd yr ysgol;
- sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu diwallu, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol;
- rhoi gwybodaeth am yr ysgol i rieni;
- llunio cynllun gweithredu ar gyfer gwella yn dilyn arolygiad ysgol.

Ac yn olaf...

- Nid oes disgwyl i unrhyw un llywodraethwr wybod hyn i gyd.
- Cryfder y corff llywodraethu yw ei allu i ddenu a dibynnu ar aelodau o amrywiaeth eang o gefndiroedd, rhannu dyletswyddau ymhlith ei aelodau, a'r gallu i wneud penderfyniadau fel grŵp.
- Nid oes un llywodraethwr sy'n gyfrifol am y corff llywodraethu, nid hyd yn oed cadeirydd y llywodraethwyr.
- Mae'r llywodraethwyr i gyd yn rhannu'r cyfrifoldeb o wneud y corff llywodraethu yn effeithiol ac effeithlon drwy osod cylch gwaith y corff a'i bwyllgorau, bod yn wybodus a mynychu cyfarfodydd.

Cymryd y cam nesaf

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn llywodraethwr ysgol, neu i ddarganfod rhagor:

- Cysylltwch gyda Gwasanaethau Llywodraethwyr Cymru am ragor o wybodaeth drwy support@governors.cymru;
- Siaradwch gyda rhywun sydd yn llywodraethwr;
- Cysylltwch gyda phennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr yn eich ysgol leol;
- Cysylltwch gyda'ch awdurdod lleol.

© Gwasanaethau Governors Cymru, Medi 2018

Gwasanaethau Governors Cymru Cyf
Rhif Cofrestru'r Cwmni: 114358060
Rhif TAW: 300 2861 53

Cyfeiriad Cofrestredig: Tŷ Elfed, Llys Oaktree, Rhodfa'r Mulberry, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS